

## CYNDEYRN (Yn Saesneg KENTIGERN), neu MUNGO (518? - 603), sant, sylfaenydd Glasgow

**Enw:** Cyndeyrn  
**Dyddiad geni:** 518?  
**Dyddiad marw:** 603  
**Rhiant:** Owain ab Urien  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** sant, sylfaenydd Glasgow  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ymddengys yn yr achrestrau Cymreig fel Cyndeyrn, mab Owain ab Urien, ac wyr Urien Rheged. Y mae Owain yn gymeriad pwysig yn y rhamantau yn Llyfr Coch Hergest, ac ymddengys ef a'i dad, Urien, yn y farddoniaeth Gymraeg gyfnar a edrydd hanes brwydrau tywysogion Brythonig y Gogledd yn erbyn Husa, mab Ida - gweler yr erthyglau ar **Lywarch Hen** a **Thaliesin**. Cysylltir y teulu, fodd bynnag, â Strathclyde, ac nid â Chymru yn ystyr bresennol y gair. Unig hawl S. Kentigern i'w gynnwys yn y gyfrol hon yw'r traddodiad amheus iawn a'i gwna'n sylfaenydd mynachdy ac esgobaeth Llanelwy. Ar y mater hwn gweler yr erthygl ar **Asaph**. Bu farw 13 Ion., yn ôl pob tebyg, yn y flwyddyn 603. Rhydd *Ann.C.*, y flwyddyn 612, dyddiad llai tebygol.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*ii, 231-40

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 166

*Oxford Dictionary of National Biography*

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Cyndeyrn

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 55657515

Wikidata: Q545175

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

#### Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1970). CYNDEYRN (Yn Saesneg KENTIGERN), neu MUNGO (518? - 603), sant, sylfaenydd Glasgow. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-CYND-EYR-0518>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government